

Cofnodion Cyfarfod 11eg o Fehefin 2013 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli.

**YN BRESENNOL**

Ken Brown  
Lena Ashley  
Sarah Riley  
Pat Jones  
Siân Gwenllian

Bethan Jones  
Hywel Vaughan Jones  
Iestyn Harris  
Louise Hughes  
Nerys John

**1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod mis Mehefin y Cyngor.

**Ymddiheuriadau** George Smith, Daniel Williams, Wynne Barton Swyddog Ariannol

**2.0 DATGAN DIDDORDEB**

2.1 Dim

**3.0 COFNODION**

3.1 Cyflwynwyd Cofnodion 14eg a 21ain Mai 2013.

**Cynigwyd ac eiliwyd bod y cofnodion y 14eg yn gywir ond gofynwyd i ychwanegu rhai sylwadau i gofnodion yr 21ain. Bydd y cofnodion yn cael eu harwyddo yng nghyfarfod misol nesaf y Cyngor wedi'r atodiad.**

**4.0 MATERION YN CODI**

4.1 **Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Gwynedd a Môn** – cyflwynodd y Cynghorydd Hywel V Jones adroddiad lafar fer ar y cynllun ond oherwydd bod y wybodaeth yn swmpus a bod angen rhoi sylwadau penderfynwyd byddai cyfarfod arbennig ar y mater unigol hwn o fudd.

**Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig i drafod y Cynllun ar yr 18fed o Fehefin am 7 yn yr hwyr yn Neuadd Goffa.**

4.2 **Llwybr Rowen** - Cyflwynodd y Cadeirydd adroddiad byr o'r hyn a drafodwyd yn y cyfarfod safle, er nad oedd y Cynghorydd George Smith yn bresennol roedd wedi anfon gair i ddweud ei fod yn hapus ar yr hyn a drafodwyd.

4.3 **Cerdded a Darganfod** - cyflwynwyd llythyr Gareth Roberts ar y fenter. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â chostau printio (oddeutu £2,500). Penderfynwyd bod angen symud ymlaen a'r prosiect ond dileu penderfyniad ar y printio am y tro gan fod amser yn caniatáu hynny. Bydd gweithgareddau cymunedol yn cael

eu cynnal er mwyn cael syniadau pobl leol ynghyd a gweithio gyda'r ysgol gynradd. Byddai modd hefyd i godi hysbysfyrddau i gyd fynd a'r cynllun cerdded a darganfod ond oherwydd efallai bod hysbysfyrddau yn cael eu codi fel rhan o Gynllun y Ion las penderfynwyd aros hyd nes bod gwybodaeth bendant i law yn cadarnhau hyn cyn gwneud penderfyniad.

**Penderfynwyd bod y Clerc yn cysylltu â Dafydd Einion am wybodaeth am Grantiau ar gyfer dyblygu taflenni.**

### **5.0 ADRODDIAD PWYLLGOR RHEOLI'R NEUADD**

- 5.1 Dim llawer i adrodd ond bod yr ofalwraig wedi adrodd bod Blwch Nwy'r Neuadd wedi diflannu.
- 5.2 Dim gwybodaeth wedi dod i law oddi wrth y pensaer ynglŷn ag adroddiad Diogelwch tân annibynnol. Cadeirydd pwyllgor y Neuadd i wneud ymholiadau.
- 5.3 Y To wedi derbyn difrod oddi wrth stormydd y gaeaf. Cyflwynwyd dau amcan bris am y gwaith atgyweirio, oherwydd bod yr amcan bris yn weddol rhad penderfynwyd ymgynghori a'r Swyddog Ariannol i edrych os oedd angen gwneud cais i'r yswiriant.
- 5.4 Penderfynwyd peidio a chyfethol aelodau newydd i'r pwyllgor ar hyn o bryd, bydd gohirio am chew mis yn caniatáu i'r pwyllgor asesu costau'r, incwm a digwyddiadau o fewn y Neuadd.

### **6.0 CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL.**

- 6.1 Cadarnhawyd gwariant Mis Mai.
- 6.2 Er nad oedd ffurflen wedi ei derbyn yn ôl oddi wrth yr Ysgol Feithrin wedi eu cais am gymorth ariannol, cafwyd ychydig o drafodaeth ynglŷn â'r mater ond penderfynwyd anfon taliad ymlaen atynt.
- 6.3 Roedd Is-Bwyllgor cyflogaeth wedi cyfarfod ac wedi penderfynu bod cyflog y Clerc a Swyddog Ariannol yn parhau yr un fath am y flwyddyn tra bod cyflog y Gofalwraig yn codi i £7.50 yr awr i gydnabod y cyfrifoldebau a dyletswyddau'r swydd.
- 6.4 Penderfynwyd byddai'r Cynghorwyr Sarah Riley ac Iestyn Harris yn archwilwyr mewnol y Cyngor ar gyfer archwilio'r cyfrifon.
- 6.5 Penderfynwyd bod polisiau presennol y Cyngor yn cael eu mabwysiadu a'u bod yn cael eu hadolygu o fewn y flwyddyn.

### **7.0 GOHEBIAETH**

- 7.1 Cyngor Gwynedd - Gorchymyn Cyngor Gwynedd (Gwaharddiad a Chyfyngiad Aros) (Penygroes, Nantlle ac Y Felinheli) 2013 - **Dim Gwrthwynebiad.**

## **8.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR COFEB Y CLOC**

- 8.1 Menter Fachwen wedi bod yn trin y blodau o amgylch y cloc. Llun wedi bod yn y Cronicl a gobeithir cael llun hefyd yn y Goriad.

## **9.0 CEISIADAU CYNLLUNIO**

- 9.1 C13/0402/20/LL a C13/00401/20/CR- Cais ar gyfer dymchwel lolfa haul presennol a'i amnewid gyda ffenestr newydd a chodi estyniad unllawr newydd – 6 Llanfair Hall Caernarfon LL55 1TT. – **Dim gwrthwynebiad**

## **10.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR Y FYNWENT**

- 10.1 Adroddwyd bod unigolyn yn torri gwair bedd teuluol ond wrth wneud yn torri ar draws beddau eraill er mwyn cael mynediad.

## **11.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH**

- 11.1 Sbwriel yn y Maes Parcio wedi ei symud. Bellach mae'r chwyn wedi tyfu, dywedodd y Cadeirydd y byddai yn trefnu i'r gwaith yma gael ei wneud.
- 11.2 Y Cadeirydd mewn cysylltiad gyda Menter Fachwen i ymdrin â chynnal a chadw'r lafant ar Safle Moriah.

## **12.0 ADRODDIAD IS-BWYLLGOR LLWYBRAU, CYSGODFANNAU A MEINCIAU**

- 12.1 Cyflwynodd y Cynghorydd Pat Jones adroddiad ar ran y Cynghorydd George Smith ar y cysgodfannau bysiau bod cŵn yn baeddu bellach wedi stopio a bod un angen sylw oherwydd ei fod new cyflwr blêr.
- 12.2 Mae rhai meinciau angen sylw yn enwedig yr un ger Carreg Goch ar Tafarngrisiau.
- 12.3 Llongyfarchwyd yr aelodau ar eu hymdrechion i newid llwybr Ffordd osgoi Bontnewydd a Chaernarfon.

## **13.0 CYNGHORODD SIR**

- 13.1 Dywedodd y Cynghorydd Siân Gwenllïan ei bod yn trio ysgrifennu adroddiad ar gyfer y Cyngor Cymuned yn fisol er nad yw Cyngorwyr Sir eraill yn gwneud, ond weithiau nid yw amser yn caniatáu; cyflwynodd adroddiad lafar i'r cyngor.

Cafwyd adroddiad ger y Nant, Cae Chwarae'r ysgol, mynediad i'r Faenol o'r Marina a gwasanaeth bus drwy Frynffynnon. Cafwyd trafodaeth fer ar y materion.

Dywedodd hefyd bod ofnau yn y pentref na fyddai Meddyg yn gallu'r Gymraeg yn y pentref. Gofynnwyd i'r Clerc anfon at y feddygfa yn dweud am yr ofnau.

**14.0 UNRHYW FATER ARALL**

Dim.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 9:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....

Cofnodion Cyfarfod 18fed o Fehefin 2013 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli.

## YN BRESENNOL

Ken Brown  
Bethan Jones  
Hywel Vaughan Jones  
Pat Jones

Iestyn Harris  
Louise Hughes  
Nerys John

## 1.0 SYLWADAU AGORIADOL AC ADRODDIAD Y CADEIRYDD

- 1.1 Croesawyd yr aelodau i gyfarfod Arbennig i drafod Cynllun Datblygu ar y Cyd Gwynedd a Môn yn unig.

**Ymddiheuriadau** George Smith, Daniel Williams, Siân Gwenllïan, Sarah Riley, Lena Ashley

## 2.0 DATGAN DIDDORDEB

- 2.1 Sarah Riley

## 3.0 CYFLWYNIAD

Rhodddwyd cyflwyniad ar y Cynllun gan y Cynghorydd Hywel Vaughan Jones. Roedd rhaid cyflwyno sylwadau ar ffurf holiadau i Gyngor Gwynedd erbyn 5 yn y pŵern ar y 27ain o Fis Fehefin 2013. Cafwyd trafodaeth a chynigwyd y canlynol fel atebion.

- 3.1 **Cwestiwn 1** (Pennod 4) Darlun o'r ardal rŵan, tudalen 31 o'r ddogfen Hoff Strategaeth. " Oes yna yna faterion eraill sydd yn ymwneud a defnydd tir/adeiladau y dylid rhoi sylw iddynt?"

**Ateb:** Mae'r Cyngor yn cydweld mai pentref gwledig arfordirol yw'r Felinheli ond credir bod y pentref wedi cyrraedd dirlawnder mewn perthynas â chodi tai amryw ystafelloedd wely oherwydd nid yw'r canlynol yn ddigonol: Gwasanaethau, Priffyrdd, Tir Amaethyddol, yr Ysgol Gynradd a Llefydd Gwyrdd, daeth y dirlawnder i fodolaeth gydag y datblygiad Ger y Nant. Er hynny byddent yn cefnogi codi tai unllawr, un llofft ar gyfer yr henoed. Credir bod tir ger Y Wern wedi ei glustnodi yn y gorffennol ar gyfer fath ddefnydd ond heb ei wireddu i ddyddiad, byddai tir ger y Feddygfa newydd hefyd yn ardal lle byddai defnydd o'r fath yma yn addas.

Mae'r Cyngor yn cydweld a'r amcan "Sicrhau Swyddi i Bobl Leol" ac oherwydd hyn hoffai'r Cyngor weld bod tir yn cael ei ddefnyddio i godi gweithdai ac unedau ar gyfer gwaith i bobl leol. Nid oes digon o unedau gloi (lock-ups) o fewn y pentref ar gyfer busnesau presennol y pentref.

- 3.2 **Cwestiwn 2** (Pennod 5) Ardal y Cynllun yn 2006 – Y Weledigaeth a'r Amcanion, tudalen 39 o'r ddogfen hoff strategaeth. " A ydych yn cytuno neu yn anghytuno

fod y Weledigaeth a'r Amcanion ym Mhennod 5 yn cyfarch y materion a welir y Mhennod 4 yn ddigonol.

**Ateb:** Cytuno.

Er bod y Cyngor yn cytuno a'r weledigaeth a'r amcanion maent o farn dylid datblygu'r amcanion er mwyn cyflawni'r weledigaeth i sicrhau bod y Felinheli yn parhau i fod yn bentref gweledig arfordirol yn cynnig gwaith i'r bobl leol a bod tai yn cael eu codi ar gyfer diwallu anghenion lleol fel tai/bungalows ar gyfer yr henoed. Mae'r iaith Gymraeg yn allweddol i'r gymuned yn y Felinheli a dylai unrhyw ddatblygiad gryfhau hyn, ynghyd a gwarchod y dreftadaeth sydd yma. Mae'r pentref o gymeriad unigryw gyda thir arfordirol ac amaethyddol a chalonogol yw gweld bod y cynllun am warchod a gwella hynny.

- 3.3 **Cwestiwn 3** (Pennod 6) Faint o dwf ac yn lle?, tudalen 44 o'r ddogfen Hoff Strategaeth. "A ydych yn cytuno mai'r Lefel Twf Tai a Ffafrir yw'r un fwyaf addas i gwrdd â materion cymdeithasol, economaidd neu amgylcheddol ardal y Cynllun?"

**Ateb:** Dewis y Cyngor yw T4.

Mae'r Felinheli yn bentref atyniadol a phoblogaidd wedi ei leoli ar lannau'r Fenai yn agos i Fangor a Chaernarfon lle mae canolfannau cyflogaeth a gwasanaethau yn bodoli, mae 62% yn siarad Gymraeg, nifer sydd wedi gostwng 10% yn y degawd diweddar. Maer 200 o dai ar y Marina, y mwyafrif yn dai rhent preifat neu yn cael ei gosod fel tai gwyliau; nid oes llawer o deuluoedd sefydlog yno, yr un yw sefyllfa yn yr Hen Gei Llechi. Er bod tai wedi eu hadeiladu ar safle Ger y Nant dim ond cam-ran isel sydd ar gyfer pobl ifanc leol o fodd i'w prynu. Nid os llawer o dai cymdeithasol yno ychwaith. Pryder y Cyngor yw byddai'r datblygiad ym Mangor a Chaernarfon yn plethu i mewn i'r Felinheli gyda chodi fwy o dai ar gyfer pobl fyddai yn cymudo i Fangor a Chaernarfon ac ardaloedd pellach ar hyd corridor yr A55.

Tybiai'r Cyngor mai T4 yw'r opsiwn gorau ar gyfer cyrraedd twf cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Y Felinheli.

- 3.4 **Cwestiwn 4** (Pennod 6) Faint o dwf ac yn lle?, tudalen 44 o'r ddogfen Hoff Strategaeth. "A ydych yn cytuno mai'r Opsiwn Gofodol a Ffafrir yw'r corau i ddsbarthu twf yn yr ardal? Os ydych yn anghytuno, beth fyddai'r strategaeth ofodol a pham?"

**Ateb:** Cytuno.

- 3.5 **Cwestiwn 5** (Pennod 7) Yr Hoff Strategaeth, tudalen 94 o'r ddogfen Hoff Strategaeth. "A ydych yn cytuno fod yr Hoff Strategaeth a'r Polisiâu Strategol yn darparu fframwaith priodol i gyfarch gweledigaeth ac amcanion y CDLL ar y Cyd fel y'u gwelir ym Mhennod 5?"

**Ateb:** Cytuno.

3.6 **Cwestiwn 6** (Pennod 8) Beth fydyn digwydd nesaf? Tudalen 110 o'r ddogfen Hoff Strategaeth. "A ydych yn cytuno gyda strwythur arfaethedig y CDLL ar y Cyd Adneuo?"

**Ateb:** Cytuno.

3.7 **Cwestiwn 7, 8 a 9** dim sylwadau.

Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 8:30 yn yr hwyr.

Llofnod: ..... Dyddiad:.....